Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol**
DYDDIAD:	**16 Gorffennaf 2024**
LLEOLIAD:	**Hybrid**
TEITL:	**Adroddiad ynghylch Adroddiad Ystadegol Uwch Grwner Ceredigion ar gyfer 2023**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Darparu gwybodaeth a gynhwysir yn Adroddiad 2023 yr Uwch Grwner**
RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	**Er gwybodaeth**

CEFNDIR:

Mae Uwch Grwner Ceredigion yn paratoi adroddiad blynyddol ar farwolaethau a adroddir i'r Crwner(Adroddiad Ystadegol'), sy'n cael ei anfon i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn ei gyhoeddi fel rhan o Ystadegau'r Crwneriaid ar wefan Llywodraeth y DU. Mae ystadegau 2023 ar gael yn ystadegau Crwneriaid 2023: Cymru a Lloegr - GOV.UK (www.gov.uk).

Mae'n ofynnol i'r Uwch Grwner ddarparu adroddiad gan yr Awdurdod Lleol i'r Cyngor i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mae'n cynnwys ystadegau perthnasol ar achosion cyfredol/a ddaeth i ben (gan gynnwys ffigurau cymharol y blynyddoedd blaenorol), diweddariad ar waith y Crwner a materion perthnasol, crynodeb o dîm y Crwner a threfniadau staffio, ac unrhyw gynlluniau yn y dyfodol.

Cyflwynwyd Adroddiad y Crwner ar gyfer 2022 i'r Pwyllgor ar 12 Mawrth 2024. Nododd y pwyllgor yr adroddiad a'i gynnwys ond cytunodd hefyd i:-

- Ysgrifennu at yr Uwch Grwner yn gofyn am adroddiad o fewn 3 mis er mwyn i'r Cyngor a ddylid cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a chynnwys ystadegau perthnasol ar achosion cyfredol/a ddaeth i ben (gyda ffigurau cymharol y blynyddoedd blaenorol), diweddariad ar waith y Crwner a materion perthnasol, crynodeb o dîm y Crwner a threfniadau staffio, ac unrhyw gynlluniau yn y dyfodol gan ei bod yn bwysig derbyn adroddiad Awdurdod Lleol, i gefnogi'r Cyngor gyda'i drefniadau tryloywder ac atebolrwydd cyrff cyhoeddus, o ystyried y ffaith bod y Cyngor yn darparu cyllid a gwasanaeth ar gyfer yr ardal a weinyddir gan y crwner yng Ngheredigion.

Anfonwyd llythyr at y Crwner gan Gadeirydd y Pwyllgor ar 13 Mawrth 2024.

Atebodd yr Uwch Grwner y llythyr ar 22 Mawrth yn cadarnhau y byddai'n llunio adroddiad o fewn y cyfnod o 3 mis. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid yw'r adroddiad wedi'i dderbyn.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

1) Adroddiad Ystadegol Ceredigion ar gyfer 2023
Nid yw Adroddiad Ystadegol Ceredigion ar gyfer 2023 wedi'i chyhoeddi eto ond disgwylir yr adroddiad erbyn diwedd mis Mehefin 2024 a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor nesaf yn y cyfarfod a gynhelir ar 8 Hydref 2024.

2) Adroddiad y Prif Grwner
Mae Adroddiad Blynyddol y Prif Grwner ar gyfer 2023 bellach wedi'i gyhoeddi a gellir dod o hyd iddo yn y ddolen hon: prif adroddiad blynyddol-Crwner-2023. Mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r Prif Grwner ar gyfer 2023, sef:

- Nid oes gan y gwasanaeth ddigon o staff
- Mae amrywiaeth annerbyniol o eang yn narpariaeth awdurdodau lleol o adnoddau sylfaenol
- Yn gyffredinol, mae'r angen am fwy o Grwneriaid Ardal gyflogedig yn parhau
- Mae'r 'triongl cyfrifoldeb' yn achosi anawsterau gweithredol
- Mae annibyniaeth farnwrol yn cael ei effeithio gan y strwythur adnoddau presennol
- Mae trefniadau diogelwch llysoedd yn amrywio'n sylweddol a phrin yw'r rhai digonol
- Mae cynnydd diweddar yn y gwaith yn debygol o fod yn barhaol
- Oedi
- Cwestau dan arweiniad barnwr
- Penodi Crwneriaid
- Cefnogaeth y Crwner

Gweithredoedd posib
- ymgysylltu â'r Uwch Grwner a'r awdurdod lleol perthnasol i geisio annog gwelliannau
- herio nifer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol ynghylch darpariaeth swyddfeydd a llysoedd annigonol
- annog awdurdodau lleol a heddluoedd i ystyried symleiddio'r model ariannu yn eu hardaloedd crwner, drwy drefnu bod yr awdurdod lleol perthnasol yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddarparu a rheoli swyddogion y crwner
- darparu addysg gyffredinol ar faterion cyfansoddiadol perthnasol yn benodol i grwneriaid.
- cynlluniau i weithredu'r cynllun arholwr meddygol statudol a diwygio'r system ardystio marwolaethau yn effeithiol o fis Ebrill 2024
- Addysgu awdurdodau lleol ynghylch ystyriaethau diogelwch

Casgliad
- nid yw llawer o ardaloedd crwneriaid wedi'u moderneiddio eto i adlewyrchu goblygiadau dyfnach y diwygiadau cenedlaethol hynny.
- mae angen newid strwythurol i symleiddio a mireinio llywodraethu a rheolaeth ardaloedd crwner unigol
- symud i ffwrdd o'r model 'triongl cyfrifoldeb' hen ffasiwn gan fabwysiadu system lywodraethu symlach a mwy effeithlon
- prinder patholegwyr

Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar nifer yr achosion dros 12 mis ar gyfer 2023 o'i gymharu â 2022. Roedd gan Geredigion 10 achos dros 12 mis yn 2023 o'i gymharu â 2 yn 2022.

3) Prif Grwner Newydd

Mae Prif Grwner newydd wedi'i benodi ar 25 Mai 2024 am gyfnod o dair blynedd, sef Ei Anrhydedd y Barnwr Alexia Durran. Mae mwy o wybodaeth am y penodiad ar gael yn y ddolen hon: Penodi Prif Grwner newydd - Llysoedd a Thribiwnlysoedd Barnwriaeth.

4) Ystadegau Crwneriaid 2023

Mae'r ystadegau cenedlaethol ar gyfer y Crwner ar gyfer 2023 wedi'u cyhoeddi a gellir eu gweld yn y ddolen hon: Ystadegau Crwneriaid 2023: Cymru a Lloegr - GOV.UK (www.gov.uk). Mae'r adroddiad yn dangos bod 36,855 o gwestau ledled y DU wedi'u hagor yn 2023 sy'n gynnydd o 2% ers 2022. Dyma'r nifer uchaf o gwestau a agorwyd ers dechrau'r cyfnodau blynyddol yn 1995, ac eithrio'r blynyddoedd pan oedd angen ymchwiliadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Roedd marwolaethau a arweiniodd at gwestau a adroddwyd yn cynrychioli 19% o'r holl farwolaethau a adroddwyd i grwneriaid yn 2023, cynnydd o 17% yn 2022. Roedd nifer y cwestau a agorwyd fel cyfran o'r marwolaethau a gofnodwyd yn 2023 yn amrywio ar draws ardaloedd y crwner, o 4% yng Ngheredigion i 39% yn Lerpwl a Chilgwri. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ardaloedd y crwner wedi cynnal rhwng 10% ac 20% o gwestau o'i gymharu â chyfanswm y marwolaethau a gofnodwyd.

Mae Tablau Ystadegau Adroddiad Blynyddol 2023 y Crwner hefyd yn dangos y wybodaeth leol ganlynol:
https://assets.publishing.service.gov.uk/media/663cfe66993111924d9d31f0/Coroners_Statistics_Annual_2023_Tables.ods

Table 11**: Reported deaths, post-mortems and inquests by coroner area 2023, and comparison with 2022**

oroner Area and Region	2023 cases					2022 cases					% change, 2022 to 2023		
	Reported Deaths 2023, inc. NFA[1]	Post-Mortems 2023	PMs as % of reported deaths 2023	Inquests opened 2023	Inquests as % of reported deaths 2023	Reported Deaths 2022, inc. NFA[1]	Post-Mortems 2022	PMs as % of reported deaths 2022	Inquests opened 2022	Inquests as % of reported deaths 2022	% change in reported deaths, inc. NFA[1]	% change in PMs	% change in inquests
Ceredigion	324	142	44%	12	4%	378	178	47%	22	6%	-14%	-20%	-45%

Table 12: Inquest conclusions recorded, by coroner area, 2023

Coroner Area and Region	Conclusion category										
	Killed lawfully and killed unlawfully	Suicide	Drugs/Alcohol Related	Road Traffic Collision	Lack of care or self-neglect	Death from industrial diseases	Death by accident or mis-adventure	Deaths from natural causes	Open	All other conclusions[1]	Total, all conclusions
Ceredigion	-	2	-	-	-	-	3	-	-	-	5

Table 13: Average time taken to process an inquest (in weeks), by area, 2019–2023[1]

Coroner Area and Region	2019	2020	2021	2022	2023
Ceredigion	23	36	38	35	14

5) Cwestau

Cysylltwyd â Swyddfa'r Crwner gan ofyn iddynt ddarparu data Cwestau hyd yma ar gyfer 2024. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth hyd yn hyn. Bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf ym mis Hydref 2024.

Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam
Na, nid yw'r newid hwn yn cynrychioli newid mewn polisi neu strategaeth

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**Hirdymor:** **Integreiddiad:** **Cydweithio:** **Cyfranogiad:** **Ataliad:**

ARGYMHELLIAD:
Bod y Pwyllgor yn:
1. Nodi cynnwys yr adroddiad

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:
I fonitro'r wybodaeth flynyddol sy'n ymwneud â marwolaethau a adroddir i Uwch Grwner Ceredigion.

Atodiadau	AMH
Enw Cyswllt:	Elin Prysor
Swydd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Y Gyfraith a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)
Dyddiad yr Adroddiad:	20.06.2024
Acronymau:	AMH